

Disgrifiad o'r modiwl

Mae technolegau cyfrifiadura cwmwl a thechnolegau symudol yn cynnig posibiliadau newydd i gynhyrchu a dosbarthu cymwysiadau a gwasanaethau TG. Mae dulliau cyflym ac elastig o ddarparu adnoddau TG, y gellir eu haddasu, yn galluogi sefydliadau i fod yn fwy arloesol, ystywyth a chosteffeithiol. Yn ein bywydau personol, mae technolegau cwmwl a symudol yn ein galluogi i gael gafael ar wybodaeth, ei storio a'i rhannu ar-lein. Mae storio a phrosesu gwybodaeth heb unrhyw leoliad ffisegol clir nac awdurdod cyfreithiol yn codi pryderon pwysig ynghylch llywodraethu a diogelwch. Yn y modiwl ar-lein hwn bydd y myfyrwyr yn dysgu am yr agweddau technegol a chymdeithasol ar dechnolegau cyfrifiadura cwmwl a thechnolegau symudol ac yn cael profiad ymarferol o'r technolegau hyn.

Mae'r modiwl hwn yn galluogi'r myfyrwyr i gael profiad ymarferol o weithio gyda thechnolegau cwmwl ac yn dangos sut mae'r 'cwmwl' yn ymwneud â thechnolegau gwe a symudol. Mae TM352 hefyd yn galluogi'r myfyrwyr i ddeall materion cymdeithasol, gwleidyddol a chyfreithiol pwysig.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech wneud y canlynol:

- cymwysterau neu brofiad cyfredol ym maes Cyfrifiadura neu TGCh
- profiad o addysgu Cyfrifiadura neu TGCh ar lefel gradd prifysgol neu brofiad perthnasol yn y maes (yn yr achos hwn, os nad oes gennych brofiad o'r fath, bydd angen i chi ymgysylltu ag un o feysydd ein cwricwlwm)
- profiad o weithio gydag ieithoedd rhaglennu, megis Java, JavaScript a PHP, a'u defnyddio
- y gallu i helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau allweddol cyffredinol ac ymarfer myfyriol sy'n gysylltiedig â gwaith prosiect
- y gallu i ddefnyddio cyfathrebu cyfrifiadurol (CMC) a chyfrifiaduron a'r rhyngwyd at ddibenion addysgu a dysgu (gan gynnwys e-bost a chynadledda), a pharodrwydd i sicrhau bod y wybodaeth honno'n gyfredol
- diddordeb yn y materion cyffredinol sy'n ymwneud â thechnolegau cyfrifiadura, gwybodaeth a chyfathrebu (gan gynnwys rhai technegol-gymdeithasol)
- gwybodaeth am fodolau cyfrifiadura cwmwl gwahanol a sut y gellid eu defnyddio
- gwybodaeth am dechnolegau gwe (megis HTML5, CSS3, REST, SOAP, HTTP); a llwyfannau symudol gwahanol
- profiad o ddefnyddio amgylchedd datblygu integredig (IDE)
- y gallu i helpu myfyrwyr i gynnal prosiect byr (sgiliau rheoli amser, cynllunio, ymchwil ac ysgrifennu)
- parodrwydd i ddysgu sut i ddefnyddio pob un o'r adnoddau meddalwedd a ddefnyddir yn y modiwl i lefel o arbenigedd lle y gallwch roi cyngor pwynt cyswllt cyntaf i fyfyrwyr
- parodrwydd i sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am dechnolegau Cyfrifiadura a TGCh wrth iddynt ddatblygu yn ystod oes y modiwl

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o ddefnyddio OpenStack neu Wasanaethau Gwe Amazon fel datblygwr
- profiad o ddefnyddio NetBeans IDE
- profiad uniongyrchol o ddatblygu, gweithredu neu gynnal cymwysiadau cwmwl a/neu gymwysiadau symudol

Gwybodaeth ychwanegol

- Rôl y darlithydd cyswllt yw darparu cymorth ar-lein a dros y ffôn ar gyfer hyd at 20 o fyfyrwyr a marcio tri aseiniad, y bydd iddynt elfen ysgrifenedig ac ymarferol, a bod ar gael i farcio adroddiadau prosiect ar gyfer myfyrwyr.
- Caiff aseiniadau eu cyflwyno, eu marcio a'u dychwelyd yn electronig. At hynny, disgwylir i ddarlithwyr cyswllt gymryd rhan mewn fforymau cymheiriaid a fforymau grwpiau myfyrwyr a chyfathrebu drwy e-bost.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4